Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol

## Penderfyniad i roi'r gorau i fwrw ymlaen â'r prosiect peilot arfaethedig

**Ebrill 2026**

# Cynnwys


Crynodeb gweithredol ........ 1

Y cyd-destun a'r cefndir ........ 2

Amserlen y broses ddatblygu ........ 2

Gwerth y gwaith a wnaethpwyd ........ 3

Crynodeb o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2025 a'i ganlyniad ........ 3

Y nod a'r egwyddorion trosfwaol ........ 4

Cwmpas yr ymgynghoriad a'r ymatebion a gafwyd ........ 4

Y rheswm pam nad yw'r prosiect peilot yn mynd yn ei flaen ........ 5

Canlyniad y broses lywodraethu ........ 5

Y manteision a gydnabuwyd ........ 5

Y risgiau a welwyd ........ 6

Opsiynau eraill a archwiliwyd ........ 6

Beth mae'r penderfyniad hwn yn ei olygu i'r rhanddeiliaid? ........ 7

Ein ffocws a'n huchelgais ar gyfer y dyfodol ........ 7

Cryfhau'r effaith yn y DU ........ 7

Cydnabyddiaethau ........ 9

Cysylltu â ni ........ 9

Atodiad A: Rhestr o ddogfennau cysylltiedig ........ 10

## Crynodeb gweithredol

Yn dilyn cyfnod o waith datblygu ac ymgynghori, daeth QAA i'r casgliad nad yw am fwrw ymlaen â phrosiect peilot y Diploma Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol. Daeth i'r casgliad hwn yn dilyn cyfnod archwilio cyflawn oedd yn cynnwys gwaith asesu dichonoldeb, dylunio, dau ymgynghoriad cyhoeddus, gwaith craffu'r Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU, ac adolygiad terfynol gan y Bwrdd.

Cynigiodd y Diploma Rhyngwladol arfaethedig nifer o fanteision posibl, yn cynnwys rhoi cymhwyster lefel 3 'cludadwy' i'r dysgwyr a allai gefnogi cydnabyddiaeth a symudedd drwy'r byd i gyd, creu cyfleoedd newydd i symud ymlaen i'r rheiny y mae eu llwybrau lleol i mewn i addysg uwch yn gyfyngedig, a'r posibilrwydd o feithrin partneriaethau rhyngwladol a chyfnewid diwylliannol. Fodd bynnag, roedd mwy o risgiau sylweddol i'r prosiect hwn na manteision.

Nid oedd digon o dystiolaeth i ddangos galw go iawn gan y farchnad neu lwybrau cynnydd dibynadwy, ac roedd hyn yn peri risg sylweddol i enw da. Roedd y model hunan-ariannu'n codi pryderon ynglŷn â gallu'r cymhwyster i alinio â chenhadaeth QAA ac a oedd mewn perygl o fynd yn rhy fasnachol i gymhwyster sydd â'r nod o gefnogi oedolion difreintiedig. Roedd y gofynion rheoleiddiol ar draws gwahanol wledydd hefyd yn hynod o gymhleth, gyda phroblemau dwys heb eu datrys yn ymwneud â goruchwylio'r ddarpariaeth a rhwystrau rheoleiddiol lleol, ymysg eraill. Yn olaf, byddai'r maint o gapasiti gweithrediadol fyddai'n angenrheidiol wedi tynnu adnoddau i ffwrdd oddi wrth flaenoriaethau craidd ar gyfer y DU.

Archwiliwyd camau lliniaru ond daeth QAA i'r casgliad nad oedden nhw'n ddigon i leihau risgiau'n ddigonol ac felly ni ellid cyfiawnhau'r prosiect peilot na'i weithrediad dilynol.

Mae QAA yn gwerthfawrogi'n fawr yr adnoddau a'r arbenigedd y mae'r rhanddeiliaid wedi eu buddsoddi yn y gwaith hwn. Ein bwriad yw y bydd y mewnwelediadau a gafwyd yn hysbysu strategaeth ar gyfer y dyfodol ac yn cryfhau darpariaeth yn y DU.

Diolch i fuddsoddiad gan Asiantaethau DMiAU roedd hi'n bosibl casglu tystiolaeth fanwl a chynhwysfawr, a galluogodd hynny i'r Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU (Pwyllgor RhThrMiAU) a'r Bwrdd ddod i benderfyniad clir ar sail y dystiolaeth. Yn y pendraw, datgelodd y gwaith ymchwil ac ymgynghori gyfres o risgiau na allai QAA eu hanwybyddu mewn ffordd gyfrifol ac yr oedd y Bwrdd yn barnu eu bod yn annerbyniol.

Erbyn hyn, ein blaenoriaeth yw cryfhau'r Diploma Mynediad i AU ar gyfer y DU, drwy sicrhau gwell data a thystiolaeth, cydweithio'n agosach â rhanddeiliaid a chyn-fyfyrwyr, ac archwilio llwybrau gwell neu newydd a allai alluogi twf ac arloesi yn y farchnad yn y DU.

Mae trosolwg llawn o ganlyniadau'r ymgynghoriad ac ystyriaethau ar gyfer y dyfodol i'w weld yn y ddogfen gysylltiedig '*Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad*'.

## Y cyd-destun a'r cefndir

1 Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yw'r corff sy'n gyfrifol am reoleiddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch (Mynediad i AU), y cyfeirir ato fel 'y Diploma' o hyn ymlaen, ac mae ei nodau elusennol yn cynnwys y cyfrifoldeb am roi cyngor i'r llywodraethau ynglŷn â'r gydnabyddiaeth a roddir i'r Diploma. Diben craidd QAA yw sicrhau bod myfyrwyr a dysgwyr yn cael profiad addysg o'r safon orau bosib.

2 Mae QAA yn gweithredu ei Chynllun Cydnabod ar gyfer Mynediad i AU. Mae'r cynllun hwn yn disgrifio gofynion a fframwaith rheoleiddio QAA, er mwyn galluogi i Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaethau DMiAU') ddatblygu, dilysu a dyfarnu Diplomâu, o dan drwydded, i ddysgwyr yn y DU. Mae QAA hefyd yn cofrestru ac yn dal y nodau masnach Mynediad i AU sy'n amddiffyn enw da'r cymhwyster.

3 Mae'r Diploma'n chwarae rôl hollbwysig o ran ehangu cyfranogaeth ac yn cefnogi dysgu gydol oes yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mewn ymateb i ddiddordeb gan Asiantaethau DMiAU, archwiliodd QAA ddichonoldeb cyflwyno Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol ('Diploma Rhyngwladol') i ymestyn manteision y cymhwyster i ddysgwyr y tu allan i'r DU.

4 Goruchwyliwyd a rheolwyd y gwaith hwn gan Bwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU (Pwyllgor RhThrMiAU) QAA, a darparwyd adroddiadau i Fwrdd QAA i'w hadolygu.[1]

5 Roedd gweithrediad y prosiect yn ddibynnol ar gymeradwyaeth lawn gan y corff llywodraethu a chynllun peilot ymarferol oedd yn dangos bod y cynllun yn ddichonadwy. Fodd bynnag, roedd adborth yr ymgynghoriad a'r sail tystiolaeth yn dangos na ellir cyflawni cynllun peilot dichonadwy, ac o ganlyniad, na ellid symud ymlaen â'r prosiect peilot na gweithrediad y prosiect.

## Amserlen y broses ddatblygu

6 Dechreuodd y gwaith o ddatblygu'r Diploma Rhyngwladol yn 2020, ond rhoddwyd saib arno pan ddaeth hi'n ofynnol i gyflwyno'r Fframwaith Rheoleiddio Eithriadol yn ystod y pandemig COVID-19 a datblygiad y Cynllun Cydnabod diwygiedig sydd i gael ei weithredu o fis Awst 2026 ymlaen.

7 Dyma bwyntiau allweddol yr amserlen:

- **2019** - Mae Prif Weithredwyr Asiantaethau DMiAU yn cyfeirio eto at y diddordeb hirdymor mewn cael Diploma rhyngwladol a gydnabyddir gan QAA, yn enwedig ar gyfer darparwyr addysg bellach sy'n gysylltiedig â'r DU ac sydd â champysau tramor.
- **2020** - Mae QAA yn dangos bwriad strategol i archwilio Diploma Mynediad i AU rhyngwladol.
- **2021 a 2022** - Gwaith dichonoldeb cychwynnol, yn cynnwys adroddiadau gwaith ymchwil a chwmpasu'r farchnad ar y cyd ag Asiantaethau DMiAU, ac yn dilyn hynny mae'r gwaith o gynllunio fframwaith rheoleiddio a thrwyddedu y bwriedir iddynt fod yn efelychiad agos o'r Cynllun Cydnabod ar gyfer y DU. Mae QAA yn cyflwyno cynllun tri cham i Asiantaethau DMiAU: gwaith ymchwil (Ionawr-Gorffennaf 2022), sy'n galluogi'r cyfnod peilot (Medi 2022-Gorffennaf 2023), a'r posibilrwydd o'i weithredu o fis Medi 2023 ymlaen. Gwnaeth QAA hefyd adolygiad lefel uchel o'r trefniadau ar gyfer llywodraethu Mynediad i AU, a arweiniodd at chwalu'r Grŵp Datblygu Cymwysterau Mynediad i AU, oedd yn adrodd

[1] Mae manylion aelodaeth a chylchoedd gwaith y Pwyllgor RhThrMiAU a Bwrdd QAA i'w gweld ar wefan QAA ar: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni/ein-trefn-reoli

gynt i'r Pwyllgor RhThrMiAU ar faterion oedd yn cynnwys y cyfnod ymchwil rhyngwladol a galluogi.

- **Misoedd olaf 2022** - Saib ar y datblygiad oherwydd pryderon gan y sector am gyflymder y broses a'r ffaith bod angen alinio'r gwaith o ddatblygu'r Diploma Rhyngwladol â'r gwaith o ddiwygio'r dulliau o reoleiddio'r Diploma ar gyfer y DU a'r gwaith o ddatblygu'r trefniadau rheoleiddio rhyngwladol.

- **Misoedd cynnar 2023** - Mae QAA yn ysgrifennu at Brif Weithredwyr Asiantaethau DMiAU i gadarnhau na all gwaith rhyngwladol barhau hyd nes bydd y newidiadau yn y trefniadau trwyddedu a monitro ar gyfer y DU yn gyflawn. Mae'r amserlen ail-drwyddedu arfaethedig flaenorol ar gyfer 2023 yn cael ei gohirio'n ffurfiol.

- **Canol 2023** - Ailddechrau'r gwaith â disgwyliadau ac amserlenni diwygiedig ac ymrwymiad i wneud ymgynghoriad cyhoeddus llawn cyn gwneud unrhyw benderfyniad. QAA yn cynnal cyfarfodydd strategol gydag Asiantaethau DMiAU a rhanddeiliaid allweddol.

- **2024** - Nod yr ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf yw sefydlu'r cysyniad eang, bwriad rheoleiddiol a dibyniaethau ar gyfer diploma rhyngwladol cyn datblygu cynigion manwl ynglŷn â thrwyddedu.

- **2025** - Cyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf, sy'n datgan gweithrediad Cynllun Cydnabod diwygiedig y Diploma ar gyfer y DU o fis Awst 2026 ymlaen. Nod yr ail ymgynghoriad cyhoeddus yw sefydlu trefniadau manwl ar gyfer trwyddedu Asiantaethau DMiAU sy'n gweithredu'n rhyngwladol.[2] Mae swyddogion QAA yn gwneud dadansoddiad manwl o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

- **Misoedd olaf 2025** - Mae'r Pwyllgor RhThrMiAU yn craffu ar dystiolaeth mewn nifer o gyfarfodydd, ac mae Bwrdd QAA yn gwneud penderfyniad ffurfiol i roi'r gorau i fwrw ymlaen â'r prosiect peilot arfaethedig.

### Gwerth y gwaith a wnaethpwyd

8 Mae QAA yn gwerthfawrogi'n fawr yr adnoddau a'r arbenigedd y mae'r rhanddeiliaid wedi eu buddsoddi yn y gwaith hwn. Diolch i'r buddsoddiad gan yr Asiantaethau DMiAU roedd hi'n bosibl casglu tystiolaeth fanwl a chynhwysfawr, a galluogodd hynny i'r Pwyllgor RhThrMiAU a'r Bwrdd ddod i benderfyniad clir ar sail y dystiolaeth. Yn y pendraw, datgelodd y gwaith ymchwil ac ymgynghori gyfres o risgiau na allai QAA eu hanwybyddu mewn ffordd gyfrifol ac yr oedd y Bwrdd yn barnu eu bod yn annerbyniol.

9 Er na fydd y prosiect peilot yn digwydd, mae'r gwaith a gwblhawyd wedi cryfhau dealltwriaeth QAA o'r galw byd-eang, cynlluniau rheoleiddio, a blaenoriaethau'r rhanddeiliaid. Bydd y mewnwelediadau hyn yn hysbysu strategaeth ar gyfer y dyfodol ac arloesi o fewn y DU, gan sicrhau bod yr adnoddau a fuddsoddwyd yn y datblygiad hwn yn parhau i ddod â buddion.

## Crynodeb o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2025 a'i ganlyniad

10 Cynigiodd QAA gyfnod peilot o ddwy flynedd i gychwyn yn ystod blwyddyn academaidd 2025-26. Byddai hyn wedi caniatáu i Asiantaethau DMiAU sydd â thrwyddedau cyfredol ar gyfer y DU wneud ceisiadau am drwyddedau ar gyfer gwledydd penodol a phrofi eu dichonoldeb cyn eu cyflwyno'n ehangach. Bwriad QAA oedd datblygu telerau ac amodau trwyddedu rhyngwladol, monitro cydymffurfiad drwy drefnau monitro cyffredinol a manylach, a chyflwyno canllawiau, er mwyn cefnogi Asiantaethau DMiAU i lunio cynlluniau credadwy ar gyfer gweithredu mewn

---

[2] Mae cyfeiriadau at bob cyhoeddiad i'w gweld yn Atodiad A ar ddiwedd y ddogfen hon.

gwledydd penodol. Roedd QAA yn bwriadu gwerthuso'r cyfnod peilot, mireinio ei dull ar sail adborth, a throsglwyddo Asiantaethau DMiAU i drwyddedau rhyngwladol llawn ar gyfer gweithredoedd ehangach.

## Y nod a'r egwyddorion trosfwaol

11 Mae cynigion QAA wedi eu seilio ar dair egwyddor:

- **Cydraddoldeb ac ansawdd** - Byddai'r Diploma Rhyngwladol yn parhau'n gyfatebol â lefel 3 Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig Lloegr a Gogledd Iwerddon,[3] gan ddefnyddio Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio sy'n bodoli'n barod i sicrhau eu bod yn gymaradwy ac yn ddibynadwy ar draws y gwledydd.

- **Diogelu dysgwyr a sicrhau eglurder** - Byddai gofyn i'r Asiantaethau DMiAU ddangos bod ganddynt gynlluniau credadwy ar gyfer gwledydd penodol, trefniadau cynnydd cadarn, a gwybodaeth glir i'w myfyrwyr, gyda dulliau monitro sydd wedi eu llunio i ddiogelu dilysrwydd y cymhwyster a phrofiad y myfyrwyr.

- **Nod sydd wedi ei alinio â mynediad a chynnydd** - Prif nod y Diploma Rhyngwladol fyddai cynnig llwybr cydnabyddedig i mewn i addysg uwch, gan gynnwys addysg drawswladol y DU, i ddysgwyr sy'n oedolion y tu allan i'r DU ac sydd â'r gallu priodol yn y Saesneg yn ôl B2[4], er mwyn cefnogi eu cynnydd a'u llwyddiant academaidd.

12 Cynigiodd QAA ddull dysgu cyfunol hefyd - wyneb yn wyneb yn bennaf, gyda chyfran gyfyngedig o ddarpariaeth o bell - gan adlewyrchu gwerth addysgol a hefyd gyfyngiadau gan bolisïau sy'n bodoli mewn rhai marchnadoedd. Ni fyddai caniatâd i ddulliau darparu cyfan gwbl ar-lein, heblaw o dan rai amgylchiadau penodol (e.e. argyfyngau neu addasiadau rhesymol unigol).

## Cwmpas yr ymgynghoriad a'r ymatebion a gafwyd

13 Yn yr ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf a gynhaliwyd yn 2024 ar y Cynllun Cydnabod newydd, archwiliwyd egwyddorion eang y Diploma Rhyngwladol arfaethedig. Cyflwynodd QAA ddau opsiwn i strwythuro cynllun rhyngwladol a nododd bod yr ymatebwyr wedi eu rhannu'n gyfran oedd yn ffafrio un opsiwn, cyfran oedd yn ffafrio'r llall, a chyfran oedd yn mynegi pryderon am y ddau. Hefyd, cynigiodd randdeiliaid ystyriaethau ehangach am ddichonoldeb a dymunoldeb cymhwyster rhyngwladol. Cofnododd yr ymateb i'r ymgynghoriad sylwadau cychwynnol am elfennau penodol o'r cynllun, yn cynnwys gofynion o ran sgiliau Saesneg, y cynnig i gael un Diploma fesul maes astudio ym mhob gwlad, a disgwyliadau o ran dysgu cyfunol, ochr yn ochr â sylwadau cyffredinol.

14 Yn ystod haf 2025, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus manylach pellach[5]. Yn yr ail ymgynghoriad hwn, er mwyn siapio manylion penodol y Diploma Rhyngwladol arfaethedig a'r

---

[3] Mae esboniad o lefelau'r cymwysterau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i'w weld ar: www.gov.uk/what-different-qualification-levels-mean/list-of-qualification-levels. Mae system ar wahân ar waith yn yr Alban, sef Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban (SCQF), sy'n defnyddio gwahanol rifau ar gyfer ei lefelau, ond mae ei ofynion dysgu'n gymharol debyg. Er enghraifft, mae lefel 6 SCQF yn disgrifio gofynion sy'n gyfatebol fel arfer â lefel 3 Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig Lloegr a Gogledd Iwerddon [*Regulated Qualifications Framework (RQF)*], ac mae lefelau 9 a 10 SCQF yn alinio'n fras â lefel 6 y RQF (lefel gradd baglor). Ni ddarperir Diplomâu Mynediad i AU yn yr Alban ar hyn o bryd.

[4] Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd [*Common European Framework of Reference for Languages (CEFR)*], sydd ar gael ar: www.coe.int/en/web/common-european-framework-reference-languages

[5] QAA (2025) Ymgynghoriad ar y trefniadau ar gyfer trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch sy'n gweithredu'n rhyngwladol, sydd ar gael ar: www.qaa.ac.uk/docs/qaa/access-to-he/ymgynghoriad-ar-y-trefniadau-ar-gyfer-trwyddedu-asiantaethau-dilysu-mynediad-i-addysg-uwch-sy'n-gweithredu'n-rhyngwladol.pdf

trefniadau rheoleiddio, trwyddedu a monitro cysylltiedig, gwahoddwyd rhagor o adborth gan yr holl randdeiliaid, yn arbennig y rheiny gyda mewnwelediad gweithrediadol. Yn yr ymgynghoriad, cynigiwyd cyfnod peilot o ddwy flynedd i gychwyn yn ystod blwyddyn academaidd 2025-26.

15 Roedd yr ail ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chwe thema allweddol, gan archwilio materion megis cymhwysedd, dulliau darparu, gofynion o ran sgiliau Saesneg, a fframweithiau rheoleiddio, er mwyn sicrhau ansawdd.

- Diffinio rôl a nod y Diploma Rhyngwladol,
- Y trefniadau i Asiantaethau DMiAU sy'n mynd i Gytundeb Trwyddedu ar gyfer y Diploma Rhyngwladol
- Y trefniadau ar gyfer cynnal trwydded Asiantaeth DMiAU ar gyfer y Diploma Rhyngwladol
- Arferion addysgu, dysgu ac asesu'r Diploma Rhyngwladol
- Marchnata'r Diploma Rhyngwladol
- Trefniadau pontio a gweithredu

16 Derbyniodd QAA naw ymateb, y rhan fwyaf ohonynt gan Asiantaethau DMiAU a roddodd adborth hynod fanwl, ac un ymateb gan ddarparwr rhyngwladol.

17 Mae ymateb llawnach i'r ymgynghoriad i'w weld yn yr adroddiad cysylltiedig, '*Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad*'.

## Y rheswm pam nad yw'r prosiect peilot yn mynd yn ei flaen

### Canlyniad y broses lywodraethu

18 Er bod dyhead i gynnal prosiect peilot llawn, roedd angen ail-werthuso'r ymrwymiad gwreiddiol yn ofalus o ganlyniad i'r newidiadau a gyflwynwyd drwy'r Cynllun Cydnabod, yn arbennig o ystyried y goblygiadau o ran rheoleiddio a'r amgylchedd geowleidyddol sy'n mynd yn gynyddol gymhleth. Felly, gwnaethpwyd y penderfyniad i roi'r gorau i fwrw ymlaen â'r prosiect peilot yn dilyn trin a thrafod estynedig mewn nifer o gyfarfodydd y Pwyllgor RhThrMiAU QAA a Bwrdd QAA.

19 Mae QAA wedi rhoi ystyriaeth ofalus i adborth yr ymgynghoriad a'r dystiolaeth ynglŷn â dichonoldeb, yng nghyd-destun ei nod strategol o sicrhau bod myfyrwyr a dysgwyr yn cael profiad addysg o'r safon orau bosib, ac o ystyried ei chenhadaeth elusennol.

### Y manteision a gydnabuwyd

20 Cydnabu QAA y manteision posibl a amlygwyd yn ystod yr ymgynghoriadau a thrafodaethau'r Pwyllgor a'r Bwrdd:

- **Cydnabyddiaeth a symudedd drwy'r byd i gyd** - Byddai Diploma Rhyngwladol wedi gallu darparu cymhwyster lefel 3 'cludadwy' ac agor llwybrau i mewn i addysg drawswladol y DU a systemau addysg uwch eraill.
- **Cyfleoedd i symud ymlaen i ddysgwyr** - Cefnogi dysgwyr mewn rhanbarthau lle mae'r llwybrau lleol i addysg uwch yn gyfyngedig.
- **Magu hyder y rhanddeiliaid yn y trefnau rheoleiddio** - Efallai y byddai ymestyn manylebau a chynlluniau trwyddedu a graddio cyfarwydd yn rhyngwladol wedi hybu sicrwydd ansawdd a hyder ar draws ffiniau.

- **Partneriaethau a chyfnewid diwylliannol** - Roedd meithrin partneriaethau gyda darparwyr rhyngwladol yn agor y posibilrwydd o gyfnewid diwylliannol ac arloesi mewn cynlluniau darparu.

- **Yr aliniad strategol â gweledigaeth ryngwladol eang QAA** - Roedd y cysyniad yn cyd-fynd ag uchelgeisiau'r sector mewn perthynas ag ymgysylltiad rhyngwladol, hyd yn oed os nad yw cyflwr y byd heddiw'n addas iawn ar gyfer treialu prosiect.

### Y risgiau a welwyd

21 Roedd y penderfyniad yn adlewyrchu cyfres eang o risgiau a chyfyngiadau:

- **Ansicrwydd am y galw gan y farchnad a'r llwybrau cynnydd** - Nid oedd digon o dystiolaeth o hyd o alw hirdymor yn y farchnad a llwybrau cynnydd credadwy; yr analluu i warantu cynnydd oedd y risg uchaf i enwau da'r dysgwyr a QAA.

- **Y gynulleidfa darged** - Cadarnhaodd adborth yr ymgynghoriad bod angen i'r gynulleidfa darged ar gyfer unrhyw gynllun peilot rhyngwladol gael ei diffinio'n glir o'r cychwyn un. Er bod Asiantaethau DMiAU yn dangos galw posibl gan ddysgwyr rhyngwladol sy'n ceisio symud ymlaen i mewn i addysg uwch yn y DU, pwysleisiodd y Pwyllgor RhThrMiAU a'r Bwrdd bod yn rhaid rhoi'r flaenoriaeth i ddysgwyr sy'n bwriadu astudio ar raglenni addysg drawswladol y DU yn eu gwledydd cartref, o ystyried yr amgylchedd geowleidyddol cyfredol. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad yw'r pwynt hwn yn eglur wedi cyfrannu at ansicrwydd ehangach ynglŷn â chynnydd, goruchwyliaeth reoleiddiol a'r diben, ac felly at y risg i'r enw da a'r risgiau gweithredol sy'n gysylltiedig â phrosiect peilot.

- **Yr aliniad â'r genhadaeth a'r maint o risg i'r enw da** - Roedd risg y byddai model hunan-ariannu'n tanseilio dibenion craidd y ddarpariaeth Mynediad i AU o ehangu mynediad, hwyluso cynnydd a masnacheiddio'r cymhwyster. Er bod rhai sefydliadau masnachol yn gweithredu cynhyrchion lefel 3 rhyngwladol, mae'n rhaid i QAA fod yn ymwybodol o'i nodau elusennol a'i hegwyddorion.

- **Cymhlethdod rheoleiddiol** - Mae gofynion gwladol amrywiol, polisïau sy'n datblygu ynglŷn â fisâu a mewnfudo, ac ansefydlogrwydd rhanbarthol yn cynyddu cymhlethdod a risg darpariaeth ryngwladol. Roedd problemau eraill oedd heb eu datrys yn cynnwys goruchwylio darpariaeth wedi'i his-gontractio, ymdrin â safleoedd dibynnol, iaith y darparu a'r asesu, gwirio hunaniaeth y dysgwyr ar elfennau ar-lein, a chyfyngiadau rheoleiddiol sy'n berthnasol i gyfreithiau'r gwledydd penodol.

- **Y capasiti gweithrediadol a'r gost i gael y cyfle** - Canfu QAA na allai ehangu ei gweithrediadau Mynediad i AU heb gynyddu'r ffioedd; byddai ychwanegu prosiect peilot rhyngwladol hefyd yn tynnu capasiti oddi wrth flaenoriaethau'r DU.

22 Cynigiwyd camau lliniaru - fel pwyntiau adolygu, sbardunau 'ymadael' cynnar a monitro materion penodol - ond roedd y Pwyllgor a'r Bwrdd yn barnu nad oedd y mesurau hyn yn lleihau'r risg cyffredinol yn ddigonol i gyfiawnhau treialu prosiect o'r fath ar hyn o bryd.

## Opsiynau eraill a archwiliwyd

23 Cyn dod i'w phenderfyniad, archwiliodd QAA ddau opsiwn:

- **Prosiect peilot llai mewn rhanbarth neu leoliad penodol** - Mae'n bosib y byddai'r opsiwn hwn wedi gallu targedu'r ymgysylltiad a lleihau'r risg cychwynnol drwy gwmpas haws ei reoli, ond ni fyddai wedi mynd i'r afael â'r risgiau penodol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r cynllun yn ehangach o ran diben, cynnydd a chymhlethdod rheoleiddiol.

- **Ehangu'r Diploma a gynigir yn y DU i ddarpariaeth ar-lein** - Gwrthodwyd yr opsiwn hwn er mwyn diogelu safonau ac amddiffyn enw da'r brand, yn enwedig am fod nifer o'r pryderon sy'n gysylltiedig â dulliau darparu ar-lein yng nghyd-destun y ddarpariaeth yn y DU yn dal i gael eu hystyried yng nghyd-destun disgwyliadau cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n datblygu.

## Beth mae'r penderfyniad hwn yn ei olygu i'r rhanddeiliaid?

24 Ni fydd Asiantaethau DMiAU a darparwyr yn gallu cynnig Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol QAA i ddysgwyr y tu allan i'r DU. Mae QAA yn parhau i fod yn fodlon ail edrych ar opsiynau yn y tymor hwy os byddai'r dystiolaeth a'r cyd-destun yn newid yn arwyddocaol.

25 Rydym yn gobeithio y bydd y dadansoddiad ehangach a'r wybodaeth a gafwyd o'r cam archwilio'n ddefnyddiol i Asiantaethau DMiAU neu sefydliadau eraill sy'n ceisio cynllunio neu weithredu cymhwyster rhyngwladol nad yw'n cario'r brand Mynediad i AU.

## Ein ffocws a'n huchelgais ar gyfer y dyfodol

### Cryfhau'r effaith yn y DU

26 Yn dilyn y penderfyniad i roi'r gorau i fwrw ymlaen â phrosiect peilot y Diploma Rhyngwladol, mae QAA yn canolbwyntio ar sicrhau'r gwerth gorau i'r cyhoedd drwy ganolbwyntio ymhellach ar ein gwaith o adfywio ac ehangu'r Diploma Mynediad i AU drwy'r DU gyfan. Mae hyn wedi bod yn ddyhead gennym hefyd yn dilyn y newidiadau yn y rheoliadau yn y DU.

27 Dwy brif golofn cynnig gwerth y Diploma Mynediad i AU yw sicrhau ansawdd a chyfle cyfartal - gan atgyfnerthu ei hygrededd fel cymhwyster lefel 3 trwyadl a'i rôl ganolog mewn ehangu cyfranogaeth.

28 Ochr yn ochr â chwblhau'r broses o drwyddedu'r holl Asiantaethau DMiAU cyfredol o dan y Cynllun Cydnabod newydd yn ystod 2026, ac adolygu'r Cynllun Graddio diwygiedig, a'r Uned Ymddygiad Proffesiynol sy'n rhan o'r Disgrifydd Pwnc ar gyfer Meddygaeth, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar weithredu dull rheoleiddio ar sail egwyddorion sy'n ystyried risgiau. Ar sail tystiolaeth gan Ofsted, Estyn ac o ffynonellau eraill, byddwn yn cryfhau ein trefnau monitro sy'n ystyried risgiau ac yn adeiladu darlun mwy eglur o'r ffordd y mae trefnau cyllido'n effeithio ar fynediad y dysgwyr a chynaliadwyedd y darparwyr.

29 Mae gennym hefyd gyfres glir o flaenoriaethau strategol arfaethedig sydd wedi eu llunio i atgyfnerthu ansawdd y cymhwyster a sicrhau ei fod yn fwy perthnasol ac effeithiol. Rydym yn awyddus i gydweithio ag Asiantaethau DMiAU a darparwyr Diplomâu i siapio'r blaenoriaethau hyn. Byddwn yn:

- **sicrhau amlygrwydd a safle Mynediad i AU ar draws y DU**, drwy weithio gyda llywodraethau a chyrff cyllido a rheoleiddio i ymwreiddio'r Diploma mewn agendâu cenedlaethol ar gyfer mynediad, cyfranogaeth, sgiliau a dysgu gydol oes. Mae hyn yn cynnwys dwysáu ein cydberthnasau ag UCAS ac ymgysylltu'n well â gwasanaethau gyrfaoedd er mwyn helpu i sicrhau y rhoddir gwybodaeth, cyngor ac arweiniad cyson o safon uchel. Byddwn yn parhau i weithio gydag aelodau QAA a grwpiau cenhadaeth addysg uwch i hybu hygrededd y Diploma ymysg y derbyniadau.
- **hybu ymwybyddiaeth pobl o'r Diploma** ochr yn ochr â lefelau A, T a V, drwy sicrhau bod Mynediad i AU yn cael ei gydnabod fel llwybr hyblyg o safon uchel i oedolion. Byddwn yn hyrwyddo cynlluniau darparu sy'n dileu'r rhwystrau a wynebir gan ddysgwyr - yn arbennig drwy ddulliau darparu hyblyg, cyfunol a digidol - ac yn amlygu sut mae'r Diploma'n alinio â sectorau sydd â blaenoriaeth, y cyflenwad o sgiliau a chyfleoedd i oedolion ddatblygu eu sgiliau neu newid eu gyrfaoedd hanner ffordd. Byddwn hefyd yn

archwilio cynlluniau posibl ar gyfer llysgenhadon myfyrwyr Mynediad i AU a/neu rwydwaith o gyn-fyfyrwyr yn y DU sy'n ychwanegu gwerth i waith Asiantaethau DMiAU unigol.

- **adeiladu proffil y cymhwyster yn y DU**, drwy gyhoeddi adroddiad blynyddol am gyflwr presennol Mynediad i AU, cyflwyno graddfa ac effaith y Diploma a'i botensial yn y dyfodol ar draws y DU.

- **gwella presenoldeb QAA ar y cyfryngau cymdeithasol, ar y we ac yn y byd digidol ehangach**, gan gryfhau ein safle fel llais awdurdodol credadwy am faterion Mynediad i AU ac ehangu cyfranogaeth.

- **datblygu map data a thystiolaeth systematig** er mwyn deall teithiau dysgwyr yn well a chynhyrchu mewnwelediadau y gellir gweithredu arnynt ar gyfer polisi, twf a gwella ansawdd. Mae hyn yn cynnwys archwilio dangosfwrdd rhyngweithiol i Asiantaethau DMiAU a rhanddeiliaid, dadansoddi bylchau mewn cyflawni a chwblhau ymysg y difreintiedig, ymchwilio anghysonderau rhanbarthol a chyfranogaeth pobl o dan 19 oed a gwneud astudiaethau manwl o batrymau penodol o gyfranogi ac ymadael.

- **mynd i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol**, gan gynnwys y rheiny a achosir gan drefnau cyllido, mynediad digidol, anghysonderau rhanbarthol a darpariaeth ran amser.

- **cryfhau'r cymorth i grwpiau sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i'w hatal rhag cael Mynediad i AU**, gan gynnwys cyn-filwyr, carcharorion, dysgwyr sydd wedi profi gofal, ffoaduriaid a'r rheini y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, a byddwn yn archwilio a yw'r ddarpariaeth gyfredol yn ateb anghenion dysgwyr amrywiol trwy ddeall ymhle y mae llwybrau dysgu dwyieithog a dulliau dysgu sy'n hygyrch ac yn agored i bobl niwrowahanol yn galluogi twf.

- **ehangu llwybrau a chyfleoedd i symud ymlaen**, drwy gydweithio ag Asiantaethau DMiAU a darparwyr i lunio dulliau addysgu newydd, archwilio'r galw am ficro-gymwysterau a disgrifyddion pwnc newydd, ystyried opsiynau i gael cydnabyddiaeth gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRh), a datblygu llwybrau mwy eglur i mewn i raglenni prentisiaeth gradd er mwyn sicrhau bod yr Hawl Dysgu Gydol Oes yn Lloegr yn cael ei defnyddio'n effeithiol.

30 Trwy weithio gyda llywodraethau a chyrff rheoleiddio ac arolygu yn y tair gwlad y mae'r Diploma'n gweithredu ynddynt, byddwn yn:

- **dyfnhau ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae Mynediad i AU yn gweithredu ar draws gwahanol drefnau rheoleiddio a chyllido**, gan gynnwys y ffordd y mae'r broses ddatganoli yn Lloegr yn ailsiapio darpariaeth leol a sut y mae Mynediad i AU yn parhau wedi ei alinio â diwygiadau i'r sector addysg drydyddol ôl-16 yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

- **defnyddio ein cysylltiadau yn yr Adran Addysg a Sgiliau yn Lloegr i gryfhau ymgysylltiad Asiantaethau DMiAU â chynlluniau lleol i wella sgiliau, ac awdurdodau strategol (cyfunol)**, er mwyn gwella llwybrau rhanbarthol, alinio'r Diploma â blaenoriaethau'r farchnad lafur, a sicrhau bod Mynediad i AU yn cyfrannu'n amlwg at yrfaoedd a phroffesiynau graddedig y mae galw mawr amdanynt.

- **adeiladu ar ganfyddiadau adroddiad QAA *'Trosglwyddo o fewn ac i mewn i addysg uwch'***, a gomisiynwyd gan Medr[6].

[6] QAA (2025) Trosglwyddo o fewn ac i mewn i addysg uwch - Archwiliad o ddulliau ac arferion da, sydd ar gael ar: www.qaa.ac.uk/docs/membership-resources/student-engagement/qaa25_readiness_to_learn_report-welsh.pdf

31 Gyda'n gilydd, credwn fod y rhaglen waith hon yn gosod Mynediad i AU fel cymhwyster lefel 3 trwyadl a hyblyg sy'n barod ar gyfer y dyfodol.

## Cydnabyddiaethau

32 Mae Mynediad i AU yn cynnig darpariaeth o safon uchel sy'n gyson ar lefel genedlaethol, gan ehangu cyfleodd i oedolion sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg uwch. Mae ei gynllun, ei drefnau rheoleiddio a'i ddiben yn ymgorffori ansawdd a chyfle cyfartal - gan olygu ei fod yn gyfrannwr allweddol mewn ehangu mynediad, hybu cyfranogaeth a datblygu'r gweithlu ar draws systemau addysg drydyddol y DU, ac yn elfen ganolog o waith QAA fel y corff o arbenigwyr sy'n sicrhau ansawdd ar draws y DU.

33 Diolchwn i'r rhanddeiliaid i gyd - Asiantaethau DMiAU, darparwyr, ymarferwyr a chyrff y sector - am eu cyfraniadau a'u hymrwymiad parhaus i Fynediad i AU.

## Cysylltu â ni

34 Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm Mynediad i AU drwy anfon e-bost at ahe@qaa.ac.uk.

## Atodiad A: Rhestr o ddogfennau cysylltiedig

QAA (2024) *Ymgynghoriad ar newidiadau i'r Cynllun Cydnabod, sydd ar gael ar:* www.qaa.ac.uk/docs/qaa/access-to-he/y-diploma-mynediad-i-addysg-uwch-adolygiad-or-trefniadau-rheoleiddio-a-thrwyddedu.pdf

QAA (2025) *Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau, sydd ar gael ar:* www.qaa.ac.uk/docs/qaa/access-to-he/arlc_0325_annex_8_consultation_response-welsh_final.pdf

QAA (2025) *Ymgynghoriad ar y trefniadau ar gyfer trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch sy'n gweithredu'n rhyngwladol, sydd ar gael ar:* www.qaa.ac.uk/docs/qaa/access-to-he/ymgynghoriad-ar-y-trefniadau-ar-gyfer-trwyddedu-asiantaethau-dilysu-mynediad-i-addysg-uwch-sy'n-gweithredu'n-rhyngwladol.pdf

QAA (2026) *Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad*, sydd ar gael ar: http://www.accesstohe.ac.uk/news-events/news/Ymatebion_ymgynghoriad.pdf

Cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2026

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2026
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000
www.qaa.ac.uk